

Water Price Review 24 Forum (PR24 Forum) – Terms of Reference

May 2022

1. Introduction

Our water sector is facing an immediate and unprecedented challenge. Climate change means that over the next 20 years, Wales faces wetter winters, hotter drier summers, rising sea levels, and more frequent and intense extreme weather events.¹ The need to achieve decarbonisation, climate resilience, and reverse the decline in biodiversity will require innovative solutions, behaviour change, and long-term investment in our water infrastructure. At the same time, cost of living challenges are the most acute in a generation, placing pressure on household incomes and the ability of many to simply pay for essentials like food, water, and energy.

The next water industry price review, PR24, will need to respond to these substantial challenges to deliver the best value for customers, communities, and the environment.

In Wales, there is a shared cross-sector ambition that this price review will promote an increased focus on long term resilience, greater environmental and social value, and delivery of high-quality services to customers and communities. Driving forward decarbonisation commitments towards net-zero, and incentivising efficiency and innovation, are also strategic priorities for PR24.

There needs to be an inclusive and collaborative process in place to explore the outcomes we seek and how these are best achieved.² An approach that leverages the collective knowledge and expertise of Welsh water industry stakeholders would support the price review by providing a shared view on the key trade-offs that water companies are faced with in the development of their Long-Term Delivery Strategies and their PR24 5-year Business Plans ('Business Plans').

Ofwat supports taking a collaborative approach in Wales when developing the high-level outcomes for PR24 and the phasing of these outcomes across the Long-Term Delivery Strategies. Both Dŵr Cymru and Hafren Dyfrdwy fully support the proposed approach to collaboration and recognise the value this will bring for their respective Business Plans. The Wales PR24 Forum ('Forum') has been identified by its Members as the principal vehicle for driving this approach.

It is important to acknowledge that in embracing collaboration, the water companies will remain responsible for developing their Business Plans and the collaborative approach will impact neither the independence of the companies' Boards nor their discretion in signing off their Business Plans. Similarly, Ofwat retains its independence as the statutory regulator of the water sector in Wales and nothing in the proposed approach affects its discretion (or its responsibilities) in carrying out that role.

2. Role

¹ Welsh Government, ['Future wales: The national plan 2040'](#), February 2021, p 45.

² See Ofwat, ['PR24 and beyond: A collaborative approach in Wales'](#), March 2022.

The Forum's role is to deliver a collaborative approach among government, regulators, water companies and wider stakeholders in Wales to provide strategic steers on the high-level outcomes that will guide and inform the development of water companies' PR24 Long-Term Delivery Strategies and Business Plans and provide views on the priorities for the sector in Wales.

Other groups may complement the work of the Forum in contributing to PR24, including the Wales Strategic Regulators' Forum, which brings together senior representatives from Welsh Government, NRW, Ofwat, CCW and DWI.

3. Objectives

The objectives of the Forum are to:

- 1) Enable a wide range of stakeholders to have meaningful, effective, and collaborative engagement in PR24 and provide strategic steers to aid the development of the high-level outcomes that will feed into the companies' Business Plans and their Long-Term Delivery Strategies. This will include discussing and where appropriate reaching agreement on strategic, consumer and policy issues that need to be addressed as part of the development of water company Long-Term Delivery Strategies and Business Plans for PR24 in Wales.
- 2) Facilitate the development of well-informed, evidence-based, joint sector positions that provide strategic direction to, and inform, water companies' Long-Term Delivery Strategies and Business Plans through collaborative, open and transparent engagement among Forum Members.
- 3) Where relevant explore effective and efficient means of achieving wider policy, environmental and social goals through water companies' Long-Term Delivery Strategies, Business Plans, the PR24 process, and other avenues including public policy, regulation, and legislation. These wider goals include Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and the Sustainable Management of Natural Resources.
- 4) Provide evidence that demonstrates specific issues facing the water sector in Wales, and the priorities for the sector and water companies. that are needed, and the resulting impact on priorities. Such evidence should be recognised through the Long-Term Delivery Strategies, Business Plans, and be considered by Ofwat as part of the PR24 price review process.
- 5) Use the new collaborative approach in Wales and assess its impact over time, capturing lessons learnt and providing feedback that could enable its wider rollout, as appropriate.

4. Communiques

A key function of the Forum is to develop and adopt positions, endorsed by its Members, that may reflect joint views on key topics for PR24, Long-Term Delivery Strategies, Business Plans, and priority outcomes for Wales and the high level outcomes that will need to be achieved over the next 25 years.

Positions of the Forum are articulated through Communiqués released and endorsed by the Forum from time to time. Positions are expected to be robust, evidence-based, informed and relevant to the development of Business Plans. As much as possible, Members will try to reach a consensus, recognising that one of the Forum's strengths will be its ability to present a single agreed position on key issues.

The Forum may also enable divergent or dissenting positions of Members (and, where appropriate, Stakeholders) to be articulated and recognised where, in certain areas, there may not be a consensus. Such divergent positions may be expressed in Communiqués.

Water companies are expected to consider Communiqués in the development of their Long-Term Delivery Strategies and Business Plans. Where those plans materially deviate from positions expressed in Communiqués, the relevant water company commits to provide a written explanation to the Forum explaining the reason for that deviation.

Ofwat is expected to consider Communiqués as part of the price review process. Ofwat will not be able to make decisions on outcomes, enhancement proposals or other expenditure categories during the collaborative process. Ofwat commits to explain how it has taken the communiqués of the Forum into account when publishing its decision.

Drafting Communiqués will be led by the Forum Secretariat, with support from Members.

5. Membership

Members play a primary role in the water sector in Wales and have a substantial and material interest in PR24.

Stakeholders have a strong interest in the water sector in Wales, and their interest may be focused on one or more aspects of the water sector (e.g. environmental protection).

5.1. Members

The following organisations are recognised as Members:

- Welsh Government
- Ofwat
- Natural Resources Wales
- Consumer Council for Water
- Drinking Water Inspectorate
- Dwr Cymru Welsh Water
- Hafren Dyfrdwy
- Customer Challenge Groups

Members play a vital role in the collaborative process and each brings strengths and areas of expertise. A description of these roles in the context of the Forum is set out in the Appendix.

5.2. Stakeholders

The following organisations are recognised as 'Stakeholders':

- Welsh Local Government Association
- Wales Environment Link
- Afonydd Cymru

- Environment Agency
- Natural England
- Albion Eco
- United Utilities
- Other organisations or individuals as recognised by the Chair, from time to time.

Stakeholders play a critical role in the work of the Forum by providing a wider perspective, including by bringing alternative views, specialist expertise, and constructive challenge. Stakeholders will be invited to attend meetings relevant to them at the discretion of the Chair, in consultation with Members.

5.3. Other attendees

Other organisations or individuals may be invited to attend Forum meetings on an ad hoc basis, at the discretion of the Chair.

5.4. Expectations of Members

Substantial input from Members will be important to ensure the collaborative process runs smoothly and, ultimately, that the views of Welsh stakeholders are incorporated into the development of water companies' Long-Term Delivery Strategies and Business Plans.

All Members are invited to be active and informed participants across the life of the Forum, reflecting their organisation's interests and expertise. For the Forum to be effective, it is expected a significant contribution of time and effort from Members will be required between meetings, in particular where Members take the lead on the development of a topic, developing discussion papers and other inputs, or drafting Communiques.

Members are expected to recognise that the Forum will be unlikely to meet the objectives of every Member organisation, and to engage in the Forum collaboratively and constructively.

Members are expected to play a central role in the work of the Forum through:

- Nominating a single lead participant to regularly attend Forum meetings with sufficient seniority to represent their organisation and be empowered to take decisions on its behalf;
- Attending every meeting and actively contributing to inform decision making;
- Ensuring lead participants communicate proceedings and decisions of the Forum as appropriate within the Member organisation; and
- Contributing outside of the Forum meetings, for example, the development of, or supporting the development of, discussion papers, analysis, research, and Communiques.

6. Materials

To enable meaningful engagement and efficient use of the limited time available in Forum meetings, Members are expected to prepare materials in advance of meetings as requested by the Chair and notified in advance.

Members should ensure that materials for meetings (such as discussion papers, research, key questions, and presentations) are, wherever possible, circulated to Members in advance, via the secretariat.

All Members will be provided with materials to support Forum activity that may include:

- Forward work programme
- Records of actions and decisions taken at meetings
- Ad hoc research and papers for consideration and discussion at Forum meetings
- Communiques articulating perspectives and positions agreed upon by the Forum
- Other outputs as required

Materials will be distributed to Members one week before the relevant Forum meeting.

Members are expected to review the materials and provide questions and comments at least 48 hours prior to the meeting to aid effective discussion.

7. Governance

7.1. Chair

The Forum will be chaired by Welsh Government or a person nominated by Welsh Government.

7.2. Work Programme

A forward Work Programme shall be developed by Welsh Government to identify the issues to be addressed by the Forum – initially over a 12-month period, and on a rolling basis thereafter.

All Members will have the opportunity to review a draft Work Programme, a final draft of which shall be agreed by Members.

The Work Programme shall be reviewed quarterly, and otherwise as needed, to ensure appropriate prioritisation.

7.3. Meeting agendas & records

The agenda for meetings will be developed and circulated by Welsh Government in advance, and will reflect the work programme, taking into account requests put forward by Members.

A record of meetings, including minutes, actions pending, and decisions taken, will be drafted by Welsh Government and circulated to Members.

7.4. Decision making

Wherever possible, decisions taken by the Forum will be made on the basis of consensus among the Members, including the agreement of Communiques (see section 4).

If the Forum is unable to reach a consensus of the Members, then these will be expressed in the Communiques. Welsh Government shall (If required) provide a steer behalf of the Forum in consultation with the Members.

It is recognised that for more specialist or technical discussions, a suitably informed sub-group of the Members may be better placed to progress discussions and provide the Forum with views and recommendations. These sub-groups may be agreed in advance by the Members. For the avoidance of doubt, sub-groups will not, of themselves, be empowered to

take decisions on behalf of the Forum.

7.5. Conflicts of interest

Any items to be discussed by the Forum that present an actual or perceived conflict of interest for the Member, either for their organisation or the individual, shall be declared to the Chair by the Member concerned. If deemed appropriate by the Member or the Chair, the Member shall absent themselves from discussion and decision of the relevant item.

8. Meetings

8.1. Meeting frequency

Meetings shall be held approximately monthly, or as otherwise advised by the Chair. Reasonable advance notice will be provided to Members from the Chair of new or amended meeting schedules.

8.2. Meeting venue

All meetings shall be accessible virtually. At the discretion of the Chair, some or all meetings shall be designated as hybrid meetings with a 'face-to-face' option, acknowledging the value of meeting in person to develop relationships within the Forum.

9. Confidentiality and transparency

9.1. Confidentiality

Forum discussions are to be treated as confidential to enable all parties to speak as openly as possible to inform debate and optimal decision-making. Members are asked to recognise the open and collaborative nature of the Forum, and that trust among the participants is central to the success of the Forum.

9.2. Transparency

Members recognise the importance of transparency and of communicating to the public the work of the Forum, given the significant role the water sector plays in Wales and the legitimate public interest in the outcomes of PR24.

The Forum will make publicly available information about its work, including

- a) a statement about its purpose and objectives;
- b) meeting summaries and attendees;
- c) Communiques, once approved by and with the consent of the Members; and
- d) other materials (eg research and discussion papers) as agreed by Members.

10. Lessons learned

As a new approach to the price review process, the Forum recognises the importance of capturing learnings from this collaborative process. Learning should be captured and applied progressively throughout the Forum's life, as well as at the conclusion of the Forum to enable lessons to be applied in future.

Welsh Government intends to capture feedback and lessons learned from Members on a quarterly basis, and conduct a 'deep dive' learning exercise at the conclusion of the Forum's work.

Ofwat will consider lessons learnt for other areas of its regulation.

11. Administration

11.1. Secretariat

Welsh Government shall provide the secretariat for the Forum.

11.2. Updating ToRs

This Terms of Reference can be reviewed and revised as required by the Forum and by agreement of the Members.

11.3. Winding up the Forum

The Forum will wind up when the PR24 process has concluded (ie after the publication of the Final Determination), or earlier at the discretion of the Welsh Government, on a date to be set by the Welsh Government in consultation with Members.

11.4. Contact details

Eifiona Williams
Water, Flood & Coal Tip Safety Division
Welsh Government
Eifiona.Williams17@gov.wales

Appendix: Roles of Members

An indicative and non-exhaustive summary of the roles of Members.

Organisation	Organisation's role in the water industry	Organisation's role at PR24 Forum
Welsh Government	Welsh Government sets the legislation and policy direction for water resources. Welsh Government's strategic priorities and objectives for the water sector are set out in its Strategic Priorities Statement (SPS) to Ofwat and the Water Strategy for Wales.	<p>Welsh Government should challenge the companies to stretch themselves in the areas reflected in these documents and related government policy, while balancing this against affordability pressures being faced by customers in Wales.</p> <p>Welsh Government is also the convenor and Chair (or will appoint a Chair) of the PR24 Forum and is responsible for its administration and coordination.</p>
Water companies in Wales	<p>Dwr Cymru Welsh Water is a not-for-dividend company which supplies drinking water and wastewater services to most of Wales and parts of western England that border Wales.</p> <p>Hafren Dyfrdwy is a wholly owned subsidiary of Severn Trent Water plc, providing water and wastewater treatment services in mid Wales and water-only services in north east Wales.</p>	<p>Welsh water companies are central to the Forum and the PR24 process, as they are obliged to own the Business Plans that are submitted to Ofwat. Company Boards are required to approve the Business Plans. Their role in the Forum includes:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Undertaking and presenting the results of high-quality engagement with their customers and local stakeholders to understand which outcomes matter most to them, to inform early Forum discussions about long-term outcomes and delivery strategies; • Sharing information on the optimal interventions and associated investment required to achieve various outcomes, as well as the phasing of these investments over PR24 and the longer-term; • Providing broad cost estimates for different packages of expenditure and outcomes, and modelling the impact on bills; and • Developing and sharing their thinking, analysis, and ultimately drafts of the Long-Term Delivery Strategies and Business Plans that reflect inputs received from the Forum, in such a way that enables the Forum to effectively review them and provide meaningful challenge and feedback.
Ofwat	Ofwat is the economic regulator for the water and wastewater sectors in England and Wales. It is responsible for making sure that the companies it regulates provide consumers with a good quality and efficient service at a fair price, whilst contributing to sustainable development and environmental protection. It delivers this through the price review process, where it checks that the companies' Long-Term Delivery Strategies and Business Plans have taken account of stakeholder views, and sets price control packages accordingly.	<p>Ofwat's contribution to the Forum includes, but is not limited to:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Providing technical support on the PR24 regulatory methodology when it is published and highlighting where changes might have occurred compared to PR19; • Encouraging discussions at the Forum that focus on the high-level outcomes and ensure they demonstrate an understanding of customer and environmental priorities; • Support Welsh Government in facilitating the Forum and help participants in the collaborative approach understand how the requirements of the Welsh SPS might be translated to the PR24 framework; and

		<ul style="list-style-type: none"> Recording and communicating lessons learned from the collaborative process to understand whether they can be applied to other areas of Ofwat's regulation and/or subsequent prices review periods. <p>Ofwat will not be able to make decisions on outcomes, enhancement proposals or other expenditure categories during the collaborative process.</p>
Natural Resources Wales (NRW)	Natural Resources Wales (NRW) is responsible for pursuing the sustainable management of natural resources in Wales. Its role involves acting as an advisor, regulator, designator, responder and educator regarding the application of sustainable management principles.	As a principal advisor to the Welsh Government on environmental matters with responsibilities including water resources and water discharges, NRW will provide clarity on the statutory and legislative requirements for water companies to deliver their obligations, and views on the environmental outcomes the sector should be seeking to deliver over the short, medium and long-term.
Consumer Council for Water (CCW)	The Consumer Council for Water (CCW) is the independent representative of household and business water consumers in England and Wales.	<p>CCW's role is to represent the interests of consumers in the PR24 Forum. It may:</p> <ul style="list-style-type: none"> Present evidence from informed research and analysis on consumer interests, and Review and, where appropriate, challenge consumer research evidence companies use to support their proposals. <p>CCW may also highlight what weight the Forum should be placing on different sources of evidence, based on customers' ability to meaningfully comment on different aspects of water companies' performance and services provided.</p> <p>CCW can also play a role in</p> <ol style="list-style-type: none"> supporting the Forum to communicate key messages about PR24 and the Forum's work to consumers, as appropriate; and providing a route for the public to provide input to the Forum.
Drinking Water Inspectorate (DWI)	The Drinking Water Inspectorate (DWI) provides independent assurance that water supplies in England and Wales are safe and drinking water quality is acceptable to consumers.	DWI's role is to provide input into any discussions relating to drinking water quality and resilience. DWI is also well placed to provide views on customer issues connected to drinking water quality, given its role investigating consumer complaints in this area.

Fforwm Adolygiad Prisiau Dŵr 24 (Fforwm PR24) – Cylch Gorchwyl

Mai 2022

1. Cyflwyniad

Mae ein sector dŵr yn wynebu her ddigynsail ar hyn o bryd. Oherwydd y newid yn yr hinsawdd, mae Cymru yn wynebu gaeafau gwlypach, hafau sychach a phoethach, lefelau'r môr yn codi, a thywydd eithafol amlach a mwy difrifol dros yr 20 mlynedd nesaf.¹ Er mwyn sicrhau datgarboneiddio, gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, mae angen atebion arloesol, newid ymddygiad, a buddsoddiad hirdymor yn ein seilwaith dŵr. Ar yr un pryd, rydym yn wynebu'r heriau costau byw mwyaf difrifol mewn cenhedlaeth, gan roi pwysau ar incwm aelwydydd a gallu llawer o bobl i dalu am hanfodion fel bwyd, dŵr ac ynni.

Bydd angen i'r adolygiad nesaf o brisiau'r diwydiant dŵr, PR24, ymateb i'r heriau sylweddol hyn er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd.

Yng Nghymru, mae pob sector yn rhannu'r un uchelgais i sicrhau y bydd yr adolygiad hwn o brisiau yn hyrwyddo mwy o bwyslais ar wydnwch hirdymor, mwy o werth amgylcheddol a chymdeithasol, a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i gwsmeriaid a chymunedau. Hefyd, mae datblygu ymrwymadau datgarboneiddio tuag at sero net, a chymell effeithlonrwydd ac arloesi, yn flaenoriaethau strategol ar gyfer PR24.

Mae angen sefydlu proses gynhwysol a chydweithredol i archwilio'r canlyniadau dymunol a'r ffordd orau o'u cyflawni.² Byddai dull gweithredu sy'n manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd cyfunol rhanddeiliaid diwydiant dŵr Cymru yn cynorthwyo'r adolygiad prisiau trwy ddarparu barn gyffredin ar y cyfnewidiadau allweddol sy'n wynebu cwmnïau dŵr wrth ddatblygu eu Strategaethau Cyflawni Hirdymor a'u Cynlluniau Busnes 5 mlynedd PR24 ('Cynlluniau Busnes').

Mae Ofwat yn cefnogi'r broses o fabwysiadu dull cydweithredol yng Nghymru wrth ddatblygu'r canlyniadau lefel uchel ar gyfer PR24 a rhoi'r canlyniadau hyn ar waith yn raddol ledled y Strategaethau Cyflawni Hirdymor. Mae Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy yn cefnogi'r dull arfaethedig o gydweithio ac yn cydnabod y gwerth a fydd yn deillio o hyn ar gyfer eu Cynlluniau Busnes. Mae Fforwm PR24 Cymru ('y Fforwm') wedi'i nodi gan ei Aelodau fel y prif gyfrwng ar gyfer datblygu'r dull gweithredu hwn.

Wrth groesawu dull cydweithredol, mae'n bwysig cydnabod y bydd y cwmnïau dŵr yn parhau i fod yn gyfrifol am ddatblygu eu Cynlluniau Busnes ac na fydd y dull cydweithredol yn effeithio ar annibyniaeth Byrddau'r cwmnïau na'u disgresiwn i gymeradwyo eu Cynlluniau Busnes. Yn yr un modd, mae Ofwat yn cadw ei annibyniaeth fel rheoleiddiwr statudol y sector dŵr yng Nghymru, ac ni fydd unrhyw elfen o'r dull arfaethedig yn effeithio ar y sefyllfa hon.

2. Rôl

¹ Llywodraeth Cymru, '[Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040](#)', Chwefror 2021, t 45.

² Gweler Ofwat, '[PR24 a thu hwnt: Dull cydweithredol yng Nghymru](#)', Mawrth 2022.

Rôl y Fforwm yw rhoi dull cydweithredol ar waith sy'n cynnwys y llywodraeth, rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid ehangach yng Nghymru er mwyn arwain a llywio'r gwaith o ddatblygu Strategaethau Cyflawni Hirdymor a Chynlluniau Busnes PR24 cwmnïau dŵr.

Gall grwpiau eraill ategu gwaith y Fforwm wrth gyfrannu at PR24, gan gynnwys Fforwm Rheoleiddwyr Strategol Cymru, sy'n dwyn ynghyd uwch gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CNC, Ofwat a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed.

3. Amcanion

Amcanion y Fforwm yw:

- 1) Galluogi ystod eang o randdeiliaid i ymgysylltu'n ystyrlon, yn effeithiol ac yn gydweithredol â PR24 ac yn y gwaith o ddatblygu'r canlyniadau lefel uchel yng Nghynlluniau Busnes y cwmnïau a'u Strategaethau Cyflawni Hirdymor.
- 2) Dod i gytundeb ynglŷn â'r materion strategol, defnyddwyr a pholisi y mae angen mynd i'r afael â nhw fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Strategaethau Cyflawni Hirdymor a Chynlluniau Busnes cwmnïau dŵr ar gyfer PR24 yng Nghymru.
- 3) Hwyluso'r gwaith o fynd ati ar y cyd i ddatblygu safbwyntiau sector sy'n seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth, sy'n llywio ac yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer Strategaethau Cyflawni Hirdymor a Chynlluniau Busnes cwmnïau dŵr, trwy ymgysylltiad cydweithredol, agored a thryloyw ymysg Aelodau'r Fforwm.
- 4) Archwilio dulliau effeithiol ac effeithlon o gyflawni nodau polisi, amgylcheddol a chymdeithasol ehangach trwy Strategaethau Cyflawni Hirdymor cwmnïau dŵr, eu Cynlluniau Busnes, penderfynu ar PR24, a llwybrau eraill gan gynnwys polisi cyhoeddus, rheoleiddio a deddfwriaeth. Mae'r nodau ehangach hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.
- 5) Darparu tystiolaeth sy'n amlygu problemau penodol sy'n wynebu'r sector dŵr yng Nghymru, y cyfnewidiadau sydd eu hangen, a'r effaith ddilynol ar flaenoriaethau. Dylid cydnabod tystiolaeth o'r fath trwy'r Strategaethau Cyflawni Hirdymor, y Cynlluniau Busnes, a thrwy ystyriaethau Ofwat fel rhan o'r broses adolygu prisiau PR24.
- 6) Defnyddio'r dull cydweithredol newydd yng Nghymru ac asesu ei effaith dros amser, gan gasglu'r gwersi a ddysgwyd a darparu adborth i'w gyflwyno'n ehangach o bosibl, fel sy'n briodol.

4. Hysbysiadau

Un o swyddogaethau allweddol y Fforwm yw datblygu a mabwysiadu safbwyntiau, wedi'u cymeradwyo gan ei Aelodau, a allai adlewyrchu safbwyntiau ar y cyd ar bynciau allweddol ar gyfer PR24, Strategaethau Cyflawni Hirdymor, Cynlluniau Busnes, a chanlyniadau â blaenoriaeth i Gymru.

Mae safbwyntiau'r Fforwm yn cael eu mynegi trwy'r Hysbysiadau sy'n cael eu rhyddhau a'u cymeradwyo gan y Fforwm o bryd i'w gilydd. Disgwylir i safbwyntiau fod yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn seiliedig ar wybodaeth ac yn berthnasol i'r broses o ddatblygu Cynlluniau Busnes. I'r graddau y bo hynny'n bosibl, bydd Aelodau'n ceisio dod i gonsensws,

gan gydnabod mai un o gryfderau'r Fforwm fydd ei allu i gyflwyno un safbwynt y cytunwyd arno ar faterion allweddol.

Hefyd, gall y Fforwm sicrhau bod safbwyntiau gwahanol neu wrthwynebus Aelodau (a, lle y bo'n briodol, Rhanddeiliaid) yn cael eu mynegi a'u cydnabod os nad oes consensws mewn rhai meysydd. Mae'n bosibl y bydd safbwyntiau gwahanol o'r fath yn cael eu mynegi mewn Hysbysiadau.

Disgwylir i gwmnïau dŵr ystyried Hysbysiadau wrth ddatblygu eu Strategaethau Cyflawni Hirdymor a'u Cynlluniau Busnes. Os yw'r cynlluniau hyn yn wahanol iawn i safbwyntiau a fynegir mewn Hysbysiadau, mae'r cwmni dŵr perthnasol yn ymrwymo i ddarparu esboniad ysgrifenedig i'r Fforwm yn nodi'r rheswm am y gwahaniaeth.

Disgwylir i Ofwat ystyried Hysbysiadau wrth lunio ei Benderfyniadau Drafft a Therfynol ar gyfer PR24. Os yw penderfyniadau Ofwat yn wahanol iawn i safbwyntiau a fynegir mewn Hysbysiadau, mae Ofwat yn ymrwymo i ddarparu esboniad ysgrifenedig i'r Fforwm yn nodi'r rheswm am y gwahaniaeth.

Ysgrifenyddiaeth y Fforwm fydd yn arwain y gwaith o ddrafftio Hysbysiadau, gyda chymorth gan Aelodau.

5. Aelodaeth

Mae aelodau yn bwysig iawn i'r sector dŵr yng Nghymru ac mae ganddynt ddiddordeb sylweddol a pherthnasol mewn PR24.

Mae gan randdeiliaid ddiddordeb mawr yn y sector dŵr yng Nghymru, a gall eu diddordeb ganolbwyntio ar un agwedd neu fwy ar y sector dŵr (e.e. diogelu'r amgylchedd).

5.1. Aelodau

Mae'r sefydliadau canlynol yn cael eu cydnabod fel Aelodau:

- Llywodraeth Cymru
- Ofwat
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr
- Arolygiaeth Dŵr Yfed
- Dŵr Cymru
- Hafren Dyfrdwy
- Grwpiau Her Defnyddwyr
- United Utilities

Mae aelodau'n gwneud cyfraniad allweddol at y broses gydweithredol ac mae pob un yn dod â chryfderau a meysydd arbenigedd. Ceir disgrifiad o'r rolau hyn yng nghyd-destun y Fforwm yn yr Atodiad.

5.2. Rhanddeiliaid

Mae'r sefydliadau canlynol yn cael eu cydnabod fel 'Rhanddeiliaid':

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Afonydd Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd

- Natural England
- Albion Eco
- Sefydliadau neu unigolion eraill sy'n cael eu cydnabod gan y Cadeirydd, o bryd i'w gilydd.

Mae rhanddeiliaid yn gwneud gwaith hanfodol yn y Fforwm trwy ddarparu safbwynt ehangach, gan gynnwys trwy fynegi barn amgen, arbenigedd penodol, a her adeiladol. Bydd rhanddeiliaid yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd sy'n berthnasol iddynt yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau.

5.3. Mynychwyr eraill

Mae'n bosibl y bydd sefydliadau neu unigolion eraill yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd y Fforwm ar sail ad hoc, yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.

5.4. Disgwyliadau ar gyfer Aelodau

Bydd mewnbyn sylweddol gan Aelodau yn bwysig er mwyn sicrhau bod y broses gydweithredol yn mynd rhagddi yn ddidrafferth ac, yn y pen draw, bod safbwyntiau rhanddeiliaid o Gymru yn cael eu cynnwys yn Strategaethau Cyflawni Hirdymor a Chynlluniau Busnes y cwmnïau dŵr.

Gwahoddir pob Aelod i fod yn gyfranogwr gweithredol a gwybodus drwy gydol oes y Fforwm, gan adlewyrchu diddordebau ac arbenigedd ei sefydliad. Er mwyn sicrhau bod y Fforwm yn effeithiol, disgwylir y bydd angen i Aelodau neilltuo amser sylweddol i'r gwaith rhwng cyfarfodydd, yn enwedig os yw Aelodau'n arwain y gwaith o ddatblygu pwnc, datblygu papurau trafod a mewnbynnau eraill, neu'n drafftio Hysbysiadau.

Disgwylir i'r Aelodau gydnabod na fydd y Fforwm yn debygol o gyflawni amcanion pob Aelod-sefydliad, a disgwylir iddynt gymryd rhan yn y Fforwm mewn ffordd gydweithredol ac adeiladol.

Disgwylir i'r Aelodau fod yn rhan ganolog o waith y Fforwm drwy:

- Enwebu un cyfranogwr arweiniol i fynychu cyfarfodydd y Fforwm yn rheolaidd, gan sicrhau bod ei statws yn ddigon uchel i gynrychioli ei sefydliad a chael ei rymuso i wneud penderfyniadau ar ei ran;
- Mynychu pob cyfarfod a chyfrannu'n weithredol at lywio'r broses o wneud penderfyniadau;
- Sicrhau bod cyfranogwyr arweiniol yn rhoi gwybod am drafodion a phenderfyniadau'r Fforwm fel sy'n briodol oddi mewn i'r Aelod-sefydliad; a
- Gwneud cyfraniad y tu allan i gyfarfodydd y Fforwm, er enghraifft, trwy ddatblygu, neu gefnogi'r gwaith o ddatblygu, papurau trafod, gwaith dadansoddi, gwaith ymchwil a Hysbysiadau.

6. Deunyddiau

Er mwyn hwyluso ymgysylltiad ystyrion a defnydd effeithlon o'r amser cyfyngedig sydd ar gael yng nghyfarfodydd y Fforwm, disgwylir i Aelodau baratoi deunyddiau cyn y cyfarfodydd yn unol â chais y Cadeirydd a'r hysbysiad ymlaen llaw.

Dylai Aelodau sicrhau bod deunyddiau ar gyfer cyfarfodydd (megis papurau trafod, ymchwil, cwestiynau allweddol a chyflwyniadau) yn cael eu dosbarthu ymlaen llaw, lle bynnag y bo modd, trwy'r ysgrifenyddiaeth.

Bydd pob Aelod yn derbyn deunyddiau i gefnogi gweithgarwch y Fforwm, gan gynnwys y canlynol o bosibl:

- Y Flaenraglen Waith
- Cofnodion o gamau gweithredu a phenderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd
- Gwaith ymchwil a phapurau ad hoc i'w hystyried a'u trafod yng nghyfarfodydd y Fforwm
- Hysbysiadau yn mynegi barn a safbwyntiau y cytunwyd arnynt gan y Fforwm
- Allbynnau eraill yn ôl y gofyn

Bydd deunyddiau'n cael eu dosbarthu i'r Aelodau wythnos cyn cyfarfod perthnasol y Fforwm.

Disgwylir i'r Aelodau adolygu'r deunyddiau a chyflwyno cwestiynau a sylwadau o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod er mwyn hwyluso trafodaeth effeithiol.

7. Llywodraethu

7.1. Cadeirydd

Bydd y Fforwm yn cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru neu gan unigolyn a enwebir gan Lywodraeth Cymru.

7.2. Rhaglen Waith

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu Blaenraglen Waith er mwyn nodi'r materion i'w hystyried gan y Fforwm – dros gyfnod o 12 mis i ddechrau, ac ar sail dreigl wedi hynny.

Bydd pob Aelod yn cael cyfle i adolygu Rhaglen Waith ddrafft, a bydd yr Aelodau'n cytuno ar ddrafft terfynol.

Bydd y Rhaglen Waith yn cael ei hadolygu bob chwarter, ac fel arall yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau blaenoriaeth briodol.

7.3. Agendâu a chofnodion cyfarfodydd

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn dosbarthu'r agenda ar gyfer cyfarfodydd ymlaen llaw, a bydd yn adlewyrchu'r rhaglen waith, gan ystyried ceisiadau a gyflwynir gan yr Aelodau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn drafftio cofnod o'r cyfarfodydd, gan gynnwys cofnodion, camau gweithredu sydd ar y gweill, a phenderfyniadau sydd wedi'u gwneud, a'u dosbarthu i'r Aelodau.

7.4. Gwneud Penderfyniadau

Lle bynnag y bo modd, bydd y Fforwm yn gwneud penderfyniadau ar sail consensws ymysg yr Aelodau, gan gynnwys cytuno ar Hysbysiadau a'u mabwysiadu (gweler adran 4).

Ar gyfer penderfyniadau yn ymwneud â gweinyddiaeth a gweithdrefnau'r Fforwm, os nad yw Aelodau'r Fforwm yn gallu dod i gonsensws, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad ar ran y Fforwm mewn ymgynghoriad â'r Aelodau.

Ar gyfer trafodaethau mwy arbenigol neu dechnegol, cydnabyddir y gallai is-grŵp o'r Aelodau sydd â gwybodaeth addas fod mewn gwell sefyllfa i ddatblygu trafodaethau a chyflwyno safbwyntiau ac argymhellion i'r Fforwm. Gall yr Aelodau gytuno ar yr is-grwpiau hyn ymlaen llaw. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd is-grwpiau yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau ar ran y Fforwm.

7.5. Achosion o wrthdaro buddiannau

Bydd unrhyw eitemau sydd i'w trafod gan y Fforwm sy'n achos gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ymddangosiadol ar gyfer yr Aelod, naill ai i'r sefydliad neu'r unigolyn, yn cael eu datgan i'r Cadeirydd gan yr Aelod perthnasol. Ni fydd yr Aelod yn cymryd rhan yn y drafodaeth na'r penderfyniad ar yr eitem berthnasol os yw'r Aelod neu'r Cadeirydd o'r farn nad yw'n briodol iddo wneud hynny.

8. Cyfarfodydd

8.1. Amllder cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd misol yn fras, neu yn unol â chyngor y Cadeirydd. Bydd y Cadeirydd yn rhoi hysbysiad rhesymol ymlaen llaw i'r Aelodau am amserlenni cyfarfodydd newydd neu ddiwygiedig.

8.2. Lleoliad cyfarfodydd

Bydd pob cyfarfod ar gael yn rhithwir. Yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd, bydd rhai cyfarfodydd, neu bob cyfarfod, yn cael eu dynodi'n gyfarfodydd hybrid gydag opsiwn 'wyneb yn wyneb', gan gydnabod gwerth cyfarfod yn bersonol i ddatblygu cysylltiadau oddi mewn i'r Fforwm.

9. Cyfrinachedd a thryloywder

9.1. Cyfrinachedd

Bydd trafodaethau fforwm yn cael eu trin yn gyfrinachol er mwyn galluogi pawb i siarad mor agored â phosibl i lywio'r drafodaeth a gwneud y penderfyniadau gorau posibl. Gofynnir i'r Aelodau gydnabod natur agored a chydweithredol y Fforwm, a bod ymddiriedaeth ymysg y cyfranogwyr yn ganolog i lwyddiant y Fforwm.

9.2. Tryloywder

Mae'r Aelodau'n cydnabod pwysigrwydd tryloywder a chyfathrebu â'r cyhoedd am waith y Fforwm, o ystyried rôl bwysig y sector dŵr yng Nghymru a'r diddordeb cyhoeddus dilys yng nghanlyniadau PR24.

Bydd y Fforwm yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am ei waith, gan gynnwys

- a) datganiad am ei ddiben a'i amcanion;
- b) crynodeb o gyfarfodydd a mynychwyr;
- c) Hysbysiadau, ar ôl cael cymeradwyaeth a chydysyniad yr Aelodau; a
- d) deunyddiau eraill (e.e. papurau ymchwil a thrafod) fel y cytunwyd gan yr Aelodau.

10. Gwersi a ddysgwyd

Fel dull newydd o ymdrin â'r broses adolygu prisiau, mae'r Fforwm yn cydnabod pwysigrwydd nodi'r hyn a ddysgwyd o'r broses gydweithredol hon. Dylai'r hyn a ddysgir gael ei gasglu a'i roi ar waith yn raddol drwy gydol oes y Fforwm, a phan ddaw'r Fforwm i ben, er mwyn sicrhau bod modd rhoi gwersi ar waith yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu casglu adborth a gwersi a ddysgwyd gan Aelodau bob chwarter, a chynnal ymarferiad dysgu dwfn, pan ddaw gwaith y Fforwm i ben.

Bydd Ofwat yn ystyried y gwersi a ddysgwyd ar gyfer meysydd eraill sy'n cael eu rheoleiddio ganddo.

11. Gweinyddiaeth

11.1. Ysgrifenyddiaeth

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ysgrifenyddiaeth y Fforwm.

11.2. Diweddarau'r Cylch Gorchwyl

Gellir adolygu a diwygio'r Cylch Gorchwyl fel sy'n ofynnol gan y Fforwm a thrwy gytundeb yr Aelodau.

11.3. Dirwyn y Fforwm i ben

Bydd y Fforwm yn dirwyn i ben pan fydd y broses PR24 wedi'i chwblhau (h.y. ar ôl cyhoeddi'r Penderfyniad Terfynol), neu cyn hynny yn ôl disgrisiwn Llywodraeth Cymru, ar ddyddiad i'w benderfynu gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â'r Aelodau.

11.4. Manylion cyswllt

Eifiona Williams
Yr Is-adran Dŵr, Llifogydd a Diogelwch Tomenni Glo
Llywodraeth Cymru
Eifiona.Williams17@llyw.cymru

Atodiad: Rolau'r Aelodau

Crynodeb dangosol, bras, o rolau'r Aelodau.

Sefydliad	Rôl y sefydliad yn y diwydiant dŵr	Rôl y sefydliad yn Fforwm PR24
Llywodraeth Cymru	Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r ddeddfwriaeth a'r cyfeiriad polisi ar gyfer adnoddau dŵr. Mae blaenoriaethau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector dŵr yn cael eu hamlinellu yn ei Datganiad Blaenoriaethau Strategol i Ofwat a'r Strategaeth Ddŵr i Gymru.	Dylai Llywodraeth Cymru herio'r cwmnïau i ymestyn eu hunain yn y meysydd dan sylw yn y dogfennau hyn ac ym mholisi cysylltiedig y llywodraeth, gan sicrhau cydbwysedd rhwng yr agwedd hon a'r pwysau fforddiadwyedd sy'n wynebu cwsmeriaid yng Nghymru. Hefyd, Llywodraeth Cymru yw cynullydd a Chadeirydd (neu bydd yn penodi Cadeirydd) y Fforwm PR24, ac mae'n gyfrifol am waith gweinyddu a chydgysylltu'r Fforwm.
Cwmnïau dŵr yng Nghymru	Mae Dŵr Cymru yn gwmni nid-er-difidend sy'n cyflenwi gwasanaethau dŵr yfed a dŵr gwastraff i'r rhan fwyaf o Gymru a rhannau o orllewin Lloegr sy'n ffinio â Chymru. Mae Hafren Dyfrdwy yn is-gwmni ym mherchenogaeth Iwyr Severn Trent Water ccc sy'n darparu gwasanaethau dŵr a thrin dŵr gwastraff yn y canolbarth a gwasanaethau dŵr yn unig yng ngogledd-ddwyrain Cymru.	Mae cwmnïau dŵr Cymru yn ganolog i'r Fforwm a'r broses PR24, gan ei bod yn ofynnol iddynt fod yn berchen ar y Cynlluniau Busnes a gyflwynir i Ofwat. Mae'n ofynnol i Fyrddau Cwmnïau gymeradwyo'r Cynlluniau Busnes. Mae eu rôl yn y Fforwm yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a chyflwyno canlyniadau prosesau ymgysylltu o ansawdd uchel gyda'u cwsmeriaid a rhanddeiliaid lleol er mwyn deall pa ganlyniadau sy'n bwysig iddynt a llywio trafodaethau cynnar y Fforwm am ganlyniadau a strategaethau cyflawni hirdymor; • Rhannu gwybodaeth am yr ymyriadau gorau a'r buddsoddiad cysylltiedig sydd ei angen i sicrhau canlyniadau amrywiol, yn ogystal â chyflwyno'r buddsoddiadau hyn yn raddol dros gyfnod PR24 ac yn fwy hirdymor; • Darparu amcangyfrifon cost bras ar gyfer pecynnau gwahanol o wariant a chanlyniadau, a modelu'r effaith ar filiau; a • Datblygu a rhannu eu syniadau, eu dadansoddiadau, ac yn y pen draw, eu drafftiau o'r Strategaethau Cyflawni Hirdymor a'r Cynlluniau Busnes sy'n adlewyrchu'r mewnbynnau a gafwyd gan y Fforwm, mewn ffordd sy'n galluogi'r Fforwm i'w hadolygu'n effeithiol a darparu her ac adborth ystyrlon.
Ofwat	Ofwat yw'r rheoleiddwr economaidd ar gyfer y sectorau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod y cwmnïau y mae'n eu rheoleiddio yn darparu gwasanaeth effeithlon o ansawdd da i ddefnyddwyr am bris teg, gan gyfrannu at waith datblygu cynaliadwy a diogelu'r amgylchedd. Mae'n gwneud hyn trwy'r broses adolygu prisiau, gan gadarnhau bod Strategaethau Cyflawni Hirdymor a Chynlluniau Busnes y cwmnïau wedi ystyried barn rhanddeiliaid. Mae'n pennu pecynnau rheoli prisiau yn unol â hynny.	Mae cyfraniad Ofwat at y Fforwm yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: <ul style="list-style-type: none"> • Darparu cymorth technegol yn ymwneud â methodoleg rheoleiddio PR24 pan gaiff ei chyhoeddi, a nodi ble y gallai newidiadau fod wedi digwydd o'i gymharu â PR19; • Hyrwyddo trafodaethau yn y Fforwm sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau lefel uchel a sicrhau eu bod yn amlygu dealltwriaeth o flaenoriaethau cwsmeriaid a blaenoriaethau amgylcheddol; • Cynorthwyo Llywodraeth Cymru i hwyluso'r Fforwm a helpu cyfranogwyr yn y dull cydweithredol i ddeall sut y gellid trosi gofynion Datganiad Blaenoriaethau Strategol Cymru i'r fframwaith PR24;

		<ul style="list-style-type: none"> Cofnodi a chyfleu gwersi a ddysgwyd o'r broses gydweithredol er mwyn deall a ellir eu cymhwyso i feysydd eraill o reoliadau Ofwat a/neu gyfnodau adolygu prisiau dilynol. <p>Ni fydd Ofwat yn gallu gwneud penderfyniadau yn ymwneud â chanlyniadau, cynigion gwella neu gategorïau gwariant eraill yn ystod y broses gydweithredol.</p>
Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)	Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gyfrifol am reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yng Nghymru. Mae ei rôl yn cynnwys gweithredu fel cynghorydd, rheoleiddiwr, dynodwr, ymatebwr ac addysgwyr wrth roi egwyddorion rheoli cynaliadwy ar waith.	Fel prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion amgylcheddol, mae gan CNC gyfrifoldeb am feysydd fel adnoddau dŵr a gollyngiadau dŵr, gan egluro'r gofynion statudol a deddfwriaethol fel bod cwmnïau dŵr yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau, ac yn mynegi safbwyntiau ar y canlyniadau amgylcheddol y dylai'r sector fod yn ceisio eu cyflawni yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor.
Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yw cynrychiolydd annibynnol aelwydydd a busnesau sy'n defnyddio dŵr yng Nghymru a Lloegr.	<p>Rôl y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yw cynrychioli buddiannau defnyddwyr yn y Fforwm PR24. Mae'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno tystiolaeth o waith ymchwil a dadansoddi ar sail gwybodaeth yn ymwneud â buddiannau defnyddwyr, ac Adolygu a, lle bo'n briodol, herio tystiolaeth ymchwil defnyddwyr y mae cwmnïau'n ei defnyddio i gefnogi eu cynigion. <p>Hefyd, gall y Cyngor Defnyddwyr Dŵr nodi faint o bwyslais y dylai'r Fforwm ei roi ar ffynonellau tystiolaeth gwahanol, yn seiliedig ar allu cwsmeriaid i wneud sylwadau ystyrion ar agweddau gwahanol ar berfformiad a gwasanaethau cwmnïau dŵr.</p> <p>Hefyd, mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn gallu helpu i</p> <ol style="list-style-type: none"> cefnogi'r Fforwm i gyfleu negeseuon allweddol am PR24 a gwaith y Fforwm i ddefnyddwyr, fel y bo'n briodol; a darparu llwybr i'r cyhoedd roi mewnbwn i'r Fforwm.
Arolygiaeth Dŵr Yfed	Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn darparu sicrwydd annibynnol bod cyflenwadau dŵr yng Nghymru a Lloegr yn ddiogel a bod ansawdd dŵr yfed yn dderbyniol i ddefnyddwyr.	Rôl yr Arolygiaeth Dŵr Yfed yw darparu mewnbwn i unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag ansawdd a gwydnwch dŵr yfed. Hefyd, mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed mewn sefyllfa dda i fynegi barn ar faterion cwsmeriaid sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr yfed, o ystyried ei rôl yn ymchwilio i gwynion defnyddwyr yn y maes hwn.